# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (BCBC)

**Y Cynghorydd David Harrison** **Ward: Cefn Glas**

**Plaid: Annibynwyr Sir Pen-y-bont ar Ogwr**

Mae’r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar **2022/2023.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

| |
|---|
| **Rôl a Chyfrifoldebau**<br><br>Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Cefn Glas ar 5 Mai 2022. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau yn y Cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi i sawl pwyllgor.<br><br>Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac wedi codi nifer o ymholiadau etholwyr yn ffurfiol gyda'r Cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill yr ydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.<br><br>Er mwyn fy ngalluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynychu nifer o Weithgareddau Datblygu Aelodau sydd wedi fy helpu i sicrhau bod fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a fy ward yn cael ei chynnal.<br><br>Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am fy rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau drwy ddefnyddio’r ddolen hon:<br>Cynghorydd David Harrison |
| **Gweithgarwch yn yr Etholaeth**<br><br>Fel rhan o’m rôl rwy’n ymweld â’m hetholaeth yn rheolaidd ac yn gwneud nodiadau ac yn rhoi gwybod am unrhyw broblemau y dof ar eu traws neu y bydd aelodau’n rhoi gwybod i mi amdanynt. Rwy’n gwneud ymdrech i ymgysylltu ag aelodau ar unrhyw broblemau a allai fod ganddynt neu sy’n gwybod am unrhyw beth y dylwn fod yn ymwybodol ohono; rwy'n ceisio sicrhau fy mod ar gael i gysylltu â nhw drwy'r post neu dros y ffôn |
| **Gweithgareddau/Materion Eraill**<br><br>Fel aelod o Gyngor Cymuned Trelales rwy'n ymwneud â phrosiectau lleol megis goleuadau Nadolig, basgedi crog, rhai o barciau chwarae'r plant ac ati. Rwy'n mynychu gwahanol weithgareddau yn y ganolfan gymunedol pan fydd amser yn caniatáu. Rwy'n cyfarfod â Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSOs) lle rwy'n clywed am |

| |
|---|
| unrhyw ymddygiad anghymdeithasol a sut yr ymdrinnir ag ef ac unrhyw bryderon cyhoeddus eraill yr adroddwyd amdanynt. |
| **Y Cynghorydd D T Harrison:** **Dyddiad: 30 06 2023** |